**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

375/51

# ECONOMEG EC5

A.M. DYDD MERCHER, 13 Mehefin 2007

(1 awr 30 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y wybodaeth yn yr astudiaeth achos yn ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Atebwch y cwestiynau yn y llyfr ateb a ddarperir ar wahân.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.
Atgoffir chi bod rhaid cyflwyno atebion clir, trefnus a graenus eu hiaith.

Astudiwch y wybodaeth ganlynol ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

# Erthygl 1 – Yn fuan, China fydd allforiwr mwyaf y byd

### Bydd wedi mynd heibio i UDA a'r Almaen erbyn 2010

Cafodd cynnydd ffrwydrol China i statws archbŵer economaidd ei gadarnhau ddoe gan Gyfundrefn Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd *(Organisation for Economic Cooperation and Development/OECD)* mewn adroddiad newydd yn rhagfynegi y byddai'n neidio dros yr Unol Daleithiau a'r Almaen o fewn pum mlynedd i fod yn allforiwr mwyaf y byd. Er gwaethaf straen cymdeithasol cynyddol a phryderon rhyngwladol, dywedodd yr *OECD* na fyddai pall *(let-up)* ar dwf hynod gyflym China.

China yw'r wlad fwyaf o bell ffordd o ran gweithgynhyrchu dillad, gyda chostau cyflogau yn 40 sent UDA yr awr sydd yn nodweddiadol yn draean o gostau cyflogau gwledydd sy'n cystadlu â hi, fel Mexico. Dim ond India o blith y prif gynhyrchwyr dillad sydd â chostau cyflogau tebyg. Mae system addysg gadarn â llythrennedd cyffredinol, cyflenwadau enfawr o lafur a buddsoddiant enfawr yn y wlad gan gwmnïau amlwladol o wledydd tramor wedi helpu i hybu twf. Erbyn hyn mae'n aelod o Gyfundrefn Masnach y Byd a chredir hefyd ei bod yn cadw cyfradd cyfnewid y *renminbi* yn artiffisial o isel mewn perthynas â $UDA ac ariannau cyfred eraill.

Mae China eisoes yn cyfrif am 6% o allforion y byd ac mae ei photensial i gyflenwi'r byd â gweithgynhyrchion cost-isel wedi achosi pryderon mewn llawer o wledydd ledled y byd. Dywedodd yr *OECD* fod cyfran China ar y trywydd iawn i godi i 10% erbyn 2010, ac erbyn hynny byddai'n mynd heibio i UDA.

Ar ôl 25 mlynedd o dwf cynnyrch mewnol crynswth (CMC) ar gyfradd flynyddol o fwy na 9%, disgwylir i China fynd heibio i Brydain, Ffrainc a'r Eidal i fod yn bedwerydd yn rhestr yr economïau mwyaf o fewn pum mlynedd. Yr wythnos hon cyhoeddodd *Ernst & Young* adroddiad yn rhagfynegi y byddai'n mynd heibio i UDA fel yr ail fwyaf o ddefnyddwyr nwyddau moeth o fewn 10 mlynedd. Rhagfynegodd y cwmni cyfrifydda gyfraddau twf blynyddol o 10% i 20% yn y sector hyd at 2015, ac erbyn hynny disgwylir i werthiant fod yn fwy nag $11.5bn (£6.4bn), neu 29% o gyfanswm y byd, yn ail i Japan yn unig.

*Addaswyd o The Guardian, Medi 17, 2005*

## Erthygl 2 – Ymchwydd twf China yn cynyddu ofnau o orgynhesu

Cryfhaodd China ei hawl i fod y motor *(engine)* ar gyfer twf byd-eang ddoe gyda ffigurau newydd a ddangosodd fod ei heconomi wedi ymchwyddo *(surged)* 9.1% y llynedd. Y cyflymder aruthrol yw'r cyflymaf ers chwe blynedd, gan ychwanegu at ofnau y gall goralw fod yn gorgynhesu'r economi ac efallai na fydd modd cynnal y twf cyflym yn y tymor hir.

Cyrhaeddodd buddsoddiant uniongyrchol o wledydd tramor yn China $53bn (£29bn) wrth i gwmnïau fel *BP* a *BMW* gynyddu cynhyrchu mewn gwlad sydd wedi'i sefydlu fel gweithdy'r byd. Mae ffatrïoedd yn nhalaith Guangdong yn cynhyrchu oergelloedd, esgidiau a dillad ar gyfer marchnadoedd tramor yn gyflymach nag erioed. Y llynedd cynyddodd allforion 35%.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf, cynyddodd incwm gwario *(disposable income)* cyfartalog gweithwyr trefol 9.3% y llynedd i 8,500 o *renminbi*, tra bu'n rhaid i drigolion cefn gwlad fodloni ar gynnydd o 4.3% i 2,622 o *renminbi*. Ond gydag 8.5 miliwn o swyddi newydd a chwyddiant yn dal yn isel ar 1.2% yn unig, pwysleisiodd swyddogion fod y wlad ar y trywydd iawn i gyflawni nod y llywodraeth o gymdeithas ffyniannus.

Nid yw ffyniant China yn seiliedig ar allforion yn unig. Mae'n mewnforio mwy o weddill Asia nag y mae Japan yn ei wneud, ac mae gwerthiant nwyddau moeth fel ffonau symudol, ceir a dillad dylunwyr o wledydd tramor yn codi i'r entrychion.

Mae arweinwyr y llywodraeth wedi rhybuddio bod y sectorau eiddo, concrit a cherbydau modur yn cyrraedd pwynt gallu cynhyrchu gormodol *(overcapacity)* ymhlith gormodedd o fuddsoddiant cyfalaf sefydlog, a gynyddodd 27% y llynedd. Ond gyda chwyddiant isel a chyflenwad bron diderfyn o lafur rhad, mae'r rhagolygon yn dal i fod yn obeithiol.

Mae poblogaeth Shanghai wedi cynyddu y tu hwnt i ugain miliwn yn y flwyddyn ddiwethaf wrth i fwy na thair miliwn o bobl oedd yn chwilio am swyddi newydd heidio i'r ddinas, sydd erbyn hyn yn cael ei hystyried yn brif ddinas fusnes China. Mae'n denu miliynau o lafurwyr gwerinol i'w ffyniant adeiladu enfawr â'i gyflogau cymharol uchel. Mae'r incwm blynyddol cyfartalog yn y ddinas tua £2,900 – llawer gwaith yn fwy na'r ffigur cenedlaethol. Mae'r miliynau o weithwyr mudol, gwledig yn Shanghai yn ffodus i gael hyd yn oed pumed ran o'r swm hwnnw, ond mae hynny'n dal yn uwch o lawer na'r incwm yn eu pentrefi genedigol lle mae llawer o bobl yn byw ar lai na'r hyn sy'n gywerth â 60c y dydd.

Mae'n ymddangos mai dim ond dechreuad o'r hyn sydd i ddod yw twf Shanghai. Mae llywodraeth China yn hybu trefoli cyflym fel modd i wella safonau byw a chynhyrchedd. Dros y blynyddoedd nesaf, mae'r wlad sydd â'r mwyaf o bobl yn y byd yn bwriadu symud tua thri chan miliwn o bobl o gefn gwlad i ardaloedd trefol.

Mae trafnidiaeth Shanghai yn tyfu ar gyfradd o 25% y flwyddyn ac mae prisiau tai yn saethu i fyny. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y llywodraeth drefol *(municipal)* fod tir yn ymsuddo ar gyfradd o 2.5cm y flwyddyn am fod cynifer o flocdyrau *(tower blocks)* newydd yn cael eu hadeiladu a bod cymaint o ddŵr yn cael ei bwmpio oddi tan y ddaear i dorri syched poblogaeth sy'n tyfu.

Yn yr arwydd diweddaraf bod Shanghai yn cael trafferth i ymdopi â'r symudiad demograffig, gorchmynnodd cyngor y ddinas i lawer o ffatrïoedd symud i shifftiau nos o'r wythnos hon ymlaen am nad oedd cyflenwadau egni yn gallu cwrdd â'r galw cynyddol am drydan yn ystod y dydd. Mae unigolion a chwmnïau preifat wedi cael eu hannog i arbed *(conserve)* pŵer, ond mae'r boblogaeth sy'n cynyddu'n gyflym yn awgrymu y gallai ffrwyno treuliant egni fod yn anodd.

*Addaswyd o The Guardian, Ionawr 21, 2004*




**Trosodd.**


# Erthygl 3 – 'Darganfyddwch gwpl o blanedau sbâr neu wynebwch ryfel olew byd-eang'


## Ffigur 1

**TREULIANT DEFNYDDIAU CRAI**

**Mae China yn safle Rhif 1 o ran treuliant:**
- **Copr**
- **Sinc**
- **Rwber**
- **Cotwm**
- **Gwenith**
- **Reis**
- **Tun**




## Ffigur 2

# BUDDSODDIADAU CHINA YN AFFRICA

- **Mae cyfanswm o 700 o gwmnïau o China yn gweithredu mewn 49 o wledydd Affrica**

**NIGERIA**
$2.3bn o fuddsoddiant mewn meysydd olew a nwy dan drafodaeth

**GWERINIAETH CANOL AFRICA**
Ynghlwm wrth gynaeafu ffrwythau ac adeiladu stadiwm pêl-droed

**LIBYA**
Buddsoddiant olew gan gwmni o China *CNBC*

**SUDAN**
Mae'n allforio mwy na hanner ei holew i China, gan gyflenwi 5% o'i hanghenion olew


**SIERRA LEONE**
Mae cwmni o China wedi buddsoddi $200 miliwn mewn adeiladu cyrchfan glan môr *(beach resort)*

**GWERINIAETH CONGO**
Mae'n mewnforio coed *(timber)*: mae wedi taro bargen ar chwilio am betroliwm ac olew. Ariannwyd argae gan fenthyciad oddi wrth China

**UGANDA**
Mae'r llywodraeth wedi mynd i mewn i bartneriaeth â chwmni coffi o China: mae cwmni o China ynghlwm wrth broject pysgota

**KENYA**
Gosod rhwydwaith telathrebu

**GABON**
Mae'n prynu tua 20% o gynnyrch petroliwm blynyddol Gabon, mae hefyd yn prynu mwyn haearn a choed



**RWANDA**
Mae gan y cwmni gwladwriaethol *China Roads and Bridges* yr hawl i weithredu pob project pwysig o ran adeiladu ffyrdd

**GWERINIAETH DDEMOCRATAIDD CONGO**
Mae cwmnïau o China wedi buddsoddi mewn mwyngloddio mwynau copr a chobalt. Cyllid ar gyfer rheilffordd rhwng Gw.Dd. Congo ac Angola dan drafodaeth

**BURUNDI**
Buddsoddiant mewn mwyngloddio nicel

**ZIMBABWE**
Buddsoddiant enfawr mewn isadeiledd *(infrastructure)*; cwmnïau o China yn cyflenwi arfau

**ANGOLA**
Cwmni o China i ailadeiladu rheilffordd am gost o $300 miliwn

**DE AFFRICA**
Buddsoddiant mewn glo ac aur

Mae'r byd yn wynebu'r bygythiad go iawn o wrthdaro newydd dros olew wrth i China gystadlu â phwerau presennol y byd am adnoddau prin i fwydo'i heconomi sy'n tyfu, yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd heddiw. Ledled y byd mae gwledydd cyfoethog a thlawd yn ofnus o ddylanwad China ar yr economi byd-eang a'r amgylchedd byd-eang.

Mae adroddiad *The State of the World 2006*, a gyhoeddwyd gan y *Worldwatch Institute*, yn dweud mai China y llynedd oedd yr ail fwyaf, ar ôl UDA, o fewnforwyr olew, tra'n treulio 26 y cant o ddur y byd, 32 y cant o'r cynnyrch reis, 37 y cant o gotwm a 47 y cant o sment. Mae China ar y trywydd i fod y gwneuthurwr mwyaf o geir yn y byd yn y degawd nesaf.

Tra bod amgylcheddwyr yn pryderu ynghylch yr effaith ar hinsawdd y byd a'r dreth *(drain)* ar ei adnoddau, mae strategwyr yn ofni y gallai'r cystadlu am egni, yn enwedig olew, ansefydlogi'r blaned. Yn ôl adroddiad *Worldwatch*, roedd China bron yn hunanddigonol o ran olew yng nghanol yr 1990au. Ond dros y degawd diwethaf mae ei threuliant wedi dyblu ac erbyn hyn mae wedi mynd heibio i Japan fel yr ail fwyaf o fewnforwyr olew, gyda 3.2 miliwn o gasgenni y dydd yn 2004.

Os bydd economïau China ac India yn parhau i dyfu ar eu cyfradd gyfredol, ni fydd y byd yn gallu cynhyrchu digon o olew i gwrdd â'r galw erbyn 2050, pan fydd treuliant wedi tyfu o'r 85 miliwn o gasgenni y dydd ar hyn o bryd i 200 miliwn o gasgenni. "Ychydig iawn o ddaearegwyr sy'n credu y bydd cynnyrch *(output)* yn cyrraedd hyd yn oed hanner y lefelau hynny cyn dechrau gostwng," meddai'r adroddiad.

"Mae ein dadansoddiad yn dangos pe bai'r ddwy wlad yn defnyddio cymaint o olew am bob person ag y mae Japan yn ei wneud heddiw, byddai eu galw nhw yn unig yn fwy na'r galw byd-eang presennol am olew. A phe bai eu galwadau y pen *(per capita claims)* nhw ar y biosffer yn cyfateb i alwadau y pen yn Ewrop heddiw, byddai angen planed Ddaear lawn arnom i gynnal y ddwy wlad hon," meddai Christopher Flavin, llywydd *Worldwatch*, mewn rhagymadrodd i'r adroddiad.

"Oni fyddwn yn darganfod cwpl o blanedau sbâr yn y degawdau nesaf, ni fydd y naill na'r llall o'r rhagamcaniadau *(projections)* hyn yn digwydd ... Rydym felly yn wynebu dewis: ailystyried bron popeth, neu fod mewn perygl o sbiral ar i lawr *(downward spiral)* o gystadleuaeth wleidyddol a chwymp *(collapse)* economaidd," meddai.

Mae pryderon wedi cael eu mynegi hefyd ynghylch China'n mynd ar drywydd adnoddau yn Affrica. Mae masnach rhwng China ac Affrica wedi cynyddu'n ddirfawr. Cynyddodd masnach ddwyffordd 39 y cant yn y deg mis cyntaf y llynedd i £18 biliwn. Cyfanswm yr allforion oedd $15.25 biliwn tra chyrhaeddodd mewnforion $16.92 biliwn. Rhwng 2002 a 2003, cynyddodd masnach 50 y cant i $18.5 biliwn – y twf cyflymaf y mae China wedi ei weld gydag unrhyw ranbarth.

Mae rhai o ddynion busnes Affrica yn cwyno bod China'n gorlenwi'r cyfandir â nwyddau rhad ac yn rhoi gwneuthurwyr mewnol allan o fusnes.

**CENEDL NEWYNOG**

- **Mae China'n defnyddio 26 y cant o ddur crai y byd, 32 y cant o'r reis, 37 y cant o'r cotwm a 47 y cant o'r sment.**
- **Hithau yw'r cynhyrchydd mwyaf o gig a'r defnyddiwr mwyaf o gig yn y byd; mae mwy na hanner o foch y byd yn China.**
- **Mae'n cynhyrchu 60% o feiciau y byd a mwy na 60% o degellau y byd.**
- **Erbyn 2010, disgwylir i China gynhyrchu mwy na hanner dillad y byd.**
- **Mae wedi mynd heibio i Japan o ran treuliant olew ac erbyn hyn mae'n ail i'r Unol Daleithiau yn unig.**
- **Mae'n defnyddio dwywaith cymaint o wrtaith â'r Unol Daleithiau.**
- **Yn 1996, roedd gan China 7 miliwn o ffonau symudol. Cynyddodd hyn i 269 miliwn erbyn 2003.**
- **China yw'r ail fwyaf o'r defnyddwyr pren yn y byd ar ôl UDA ac mae wedi cyhoeddi treth ar weill bwyta tafladwy** *(disposable chopsticks)* **fel rhan o amrywiaeth o fesurau i warchod amgylchedd y wlad, sy'n dirywio.**

*Addaswyd o The Times, Ionawr 12, 2006*



**Trosodd.**

*(a)* I ba raddau y mae "cynnydd ffrwydrol China i statws archbŵer economaidd" (Erthygl 1 llinell 3) yn ganlyniad i gyflogau isel yn unig? [20]

*(b)* Trafodwch y farn y gall economi China 'fod yn gorgynhesu' ac 'efallai na fydd modd cynnal y twf cyflym yn y tymor hir'. (Erthygl 2 llinellau 30-31.) [20]

*(c)* Trafodwch a ddylai gwledydd eraill fod yn 'ofnus o ddylanwad China ar yr economi byd-eang a'r amgylchedd byd-eang'. (Erthygl 3 llinellau 70-71.) [20]